# Diweddariad ar gyfer y Pwyllgor Archwilio (Rhagfyr 2013)
# Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth

**Lynn Ball Uwch-Berchennog Rheoli Risg**

Yn dilyn nifer o achosion o dorri dyletswydd statudol y Cyngor i gadw gwybodaeth bersonol pobl yn ddiogel, bu'n rhaid i'r Cyngor arwyddo 'ymrwymiad' (sef ymrwymiad ffurfiol i wneud newidiadau) gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Fel rhan o waith dilynol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth archwiliwyd cydymffurfiaeth y Cyngor gyda Deddf Diogelu Data 1998 ym mis Gorffennaf 2013. Edrychodd yr archwiliad ar dri faes a oedd yn debygol o beri risg i ddiogelwch gwybodaeth bersonol:

- Llywodraethiant materion Diogelu Data
- Rheoli Cofnodion
- Diogelwch Gwybodaeth Bersonol

Gwnaed dros 100 o argymhellion yn yr adroddiad. Mewn ymateb i'r argymhellion hyn mae'r Awdurdod wedi nodi camau i'w cyflawni dan bump o themâu allweddol:

- Thema 1 – Polisiau a Strategaethau
- Thema 2 – Cyfathrebu, Hyfforddiant a Chanllawiau
- Thema 3 – Rheoli Cofnodion
- Thema 4 - Mynediad i Adeiladau, Gwybodaeth a Thrydydd Partïon
- Thema 5 – Trefniadau Adrodd / Llywodraethiant (Perchenogaeth)

Mae'n bwysig nodi bod gwaith wedi cychwyn eisoes i sicrhau bod y *'Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwelliannau yn y maes Diogelwch Data'* yn ymgorffori'r holl weithgareddau rheoleiddiol blaenorol yn y maes hwn; byddwn o'r herwydd yn cyflawni yn erbyn un cynllun gweithredu.

Y Bwrdd Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth, fel rhan o Raglen Trawsnewid Busnes y Cyngor, fydd y cyfrwng ar gyfer cyflawni'r cynllun gweithredu hwn.

**Gall achosion difrifol o dorri'r Deddf Diogelwch Data olygu dirwyon ariannol trwm (hyd at £500k) a niwed i enw da'r Awdurdod. Yn ogystal, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cynnal archwiliad arall yn y dyfodol agos, a gall methiant i weithredu newidiadau arwain at gymryd camau gorfodaeth yn erbyn y Cyngor.**

**Gellir dweud yn gwbl bendant y byddai gweithredu argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn lleihau'r risg o dorri'r Ddeddf Diogelwch Data mewn modd difrifol.**

**Cynnydd hyd yma:**

- Cafwyd capasiti yn ddiweddar i brosiect ar gyfer cymorth TG, AD a Chyfreithiol/DP.
- Dechreuodd y cynllun gweithredu ar 1 Tachwedd
- Paratowyd pedwar o bolisïau allweddol ac fe'u cymeradwywyd gan yr UDA: Polisi Diogelwch Data; Polisi Asesu'r Effaith ar Breifatrwydd; Polisi Categorïau Data Personol (y bydd angen i'r gwasanaethau weithio arno); Risg Gwybodaeth
- Bwrdd Prosiect Nesaf: 6 Rhagfyr - adroddir ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu a bydd diweddariad o'r cyfarfod hwn yn cael ei roi ar lafar i'r Pwyllgor Archwilio.